**Atodiad A**

# LLIFSIART DATGELU CAMARFER

Gweithiwr yn mynegi pryder wrth y rheolwr llinell, rheolwr uwch, neu Swyddog Datgelu Camarfer penodedig. Fel arfer, bydd yr unigolyn hwn yn dod yn 'Swyddog Cyswllt', ond gellir trefnu mai rhywun arall sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno gyda chaniatâd y gweithiwr

Bydd y Swyddog Cyswllt yn archwilio'r pryderon gyda'r unigolyn, ac yn ystyried a ydynt yn perthyn i 1 neu fwy o'r 6 chategori o ddatgeliad a amddiffynnir (gweler y blwch ar y dde) ac a ydynt er lles y cyhoedd

Datgeliad a amddiffynnir:

- Tramgwyddau troseddol
- Torri rhwymedigaeth gyfreithiol
- Camweinyddu cyfiawnder
- Peryglu iechyd a diogelwch unigolyn
- Niwed i'r amgylchedd
- Celu gwybodaeth ynghylch yr uchod yn fwriadol

Os ydynt

Os bydd y pryderon yn ymwneud â chyflogaeth y gweithiwr ei hun o fewn yr awdurdod **ac** mae'n enghraifft o **'ddatgeliad a amddiffynnir'**, dylid dilyn egwyddorion y weithdrefn datgelu camarfer, ochr yn ochr â'r polisi a'r weithdrefn AD perthnasol.

Hysbysu'r Swyddog Monitro yn is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith bod cwyn datgelu camarfer wedi'i chyflwyno, a cheisio cyngor ynghylch y cam nesaf.

Gall y pryderon:

- Fod yn destun ymchwiliad mewnol yn unol â Pholisi Ymchwiliadau'r Cyngor
- Gael eu cyfeirio at yr Heddlu
- Gael eu cyfeirio at Swyddfa Archwilio Cymru
- Fod yn destun ymchwiliad annibynnol.

Os nad ydynt

Os yw'r pryderon yn ymwneud â chyflogaeth y gweithiwr ei hun gyda'r awdurdod **ac nid yw'n ddatgeliad a amddiffynnir,** dylid cynghori'r unigolyn i siarad â'r **rheolwr llinell**, yn unol â Pholisi'r Cyngor ar gyfer Achwyniadau neu'r canllawiau Safonau Ymddygiad, fel sy'n briodol.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn cydnabod pryderon yr unigolyn, a chyn pen 14 diwrnod:

- yn nodi sut yr ymdrinnir â'r mater
- yn rhoi amcan o'r amser a gymerir i archwilio'r pryderon
- yn rhoi gwybod a wnaed unrhyw ymholiadau cychwynnol;
- yn cadarnhau a gynhelir ymchwiliad llawn, ac os na wneir hynny, yn nodi pam.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn cytuno gyda'r gweithiwr ar y math o gyswllt a'i amlder er mwyn rhoi adborth ynghylch cynnydd yr ymchwiliad, gan gadarnhau diogelu data a chyfyngiadau cyfrinachedd yn y broses.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn hysbysu'r unigolyn ynghylch canlyniad y gŵyn, ynghyd â chopi o'r ffurflen adborth cyn pen 14 diwrnod calendr i'r ymchwiliad ddod i ben.

Bydd y Swyddog Cyswllt yn hysbysu'r Swyddog Monitro ynghylch canlyniad y gŵyn.